YSGOL BRYNREFAIL

PLANNU COED

Ar ddydd Gwener, Mawrth 18, fe gymerodd nifer bach o ddisgyblion blwyddyn 11 rhan mewn ymgyrch gan Goed Cadw (The Woodland Trust), y brif elusen yn y DU sy'n siarad dros goedlannau a choed, i blannu clawdd brodorol ar ddaear yr ysgol.
Mae'r holl goed a llwyni sy'n cael eu plannu yn rhai brodorol, a gyda pheth lwc mi fyddant yn tyfu'n llwyddiannus mewn i'r ganrif nesaf - pan fydd wyrion y plant yma yn medru arolygu ffrwyth eu gwaith llafur.
Rhaid diolch yn arbennig i Sioned Jones, Catrin Davies, Emma Evans a David Hanks, am eu dyfalbarhad, i blannu yr holl goed, yn enwedig yn yr haul cynnes.

Mae hwn yn rhan o ymgyrch "Trwy Wŷdd, Ddaw Budd" Coed Cadw - ymgyrch plannu coed fwyaf i'r DU erioed eu profi. Cafodd ei lansio yn 2010, a bwriad y prosiect yw hyrwyddo plannu 20 miliwn o goed brodorol y flwyddyn dros y 50 mlynedd nesaf.